

Chwarae ein rhan
**CROESO
I BAWB**



Playing our part
**EVERYONE
WELCOME**

Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Aelod Bwrdd Croeso i Bawb

Gwybodaeth i ddarpar Aelodau Bwrdd; Ionawr 2020

Crynodeb

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru yn chwilio am ddau aelod ar gyfer ein bwrdd Croeso i Bawb / Everyone Welcome i'n cynorthwyo i wireddu'r canlynol:

- bod Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn cael ei chydabod fel sefydliad amrywiol a chynhwysol, sy'n dysgu ac yn gwella'n barhaus;
- bod Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn gallu sicrhau ei bod yn berthnasol i gymdeithas Cymru a bod y gymdeithas yn gallu uniaethu â hi

Bydd hyn yn ategu'r dyhead a nodwyd gan Justin Albert, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru.

*Byddwn yn cael ein hadnabod ar sail ein dull 'breichiau agored' tuag at bawb sy'n rhyngweithio â ni, a bydd gennym uchelgais y gellir ei gyflawni, sef nid yn unig gwneud i bawb deimlo eu bod yn cael croeso, ond gwneud i bawb deimlo eu bod yn rhan o bopeth a wnawn. A thrwy ddweud pawb, rydw i'n golygu pawb, **NID** pwyl bynnag sy'n dewis dod atom ni. Rhaid i ni estyn dwylo at bobl sy'n gwybod dim amdanom, yn hytrach nag aros iddyn nhw ddod atom ni... Rydw i eisiau i ni fod yn bartner rhagweithiol i sefydliadau eraill yng Nghymru er mwyn i ni allu cyflawni ein cenhadaeth ein hunain a'r genhadaeth 'i bawb' ehangach.*

Cefndir

Pwrpas craidd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw: Gofalu am leoedd o ddiddordeb hanesyddol neu harddwch naturiol yn barhaol er budd y genedl ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ar gyfer pawb ac am byth.



Dyma rai pethau yr ydym yn gofalu amdanynt yng Nghymru:

- Mae un rhan o wyth o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig Cymru a 30,000 hectar o'n tir yn gynefin â blaenoriaeth a reolir yn bennaf er budd natur
- 46,000 hectar o'r mannau harddaf a mwyaf eithriadol yng Nghymru; mae 97% o'r tir hwn wedi'i gofrestru'n dir amaethyddol
- 157 milltir o'r arfordir
- Copa uchaf Cymru a Lloegr lle'r ydym yn ffermio defaid a Gwartheg Duon Cymreig er budd y dirwedd, bwyd a bywyd gwyllt
- Mae'r ystad cefn gwlad fwyaf sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth – Ystad Ysbyty – yn cynnwys 52 o ffermydd a'u tenantiaid Cymraeg eu hiaith
- Ardaloedd o bwysigrwydd rhyngwladol, yn cynnwys ardal y Migneint a gydnabyddir ar sail ei storfa garbon a'i hadar prin, gan gynnwys yr ylfafir
- Mae gennym 200,000 o aelodau'n byw yng Nghymru a chawn fwy nag 1.7 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn.
- Rydym yn warcheidwaid ar 18 o'r cestyll, y tai, y gerddi a'r safleoedd treftadaeth gorau ac ar 10 o blith yr 14 mynydd sy'n cyrraedd 3000 troedfedd neu fwy yng Nghymru

Fel elusen annibynnol nad yw'n cael unrhyw arian uniongyrchol gan y Llywodraeth, rydym yn dibynnu ar gefnogaeth ac ewyllys da ein haelodau er mwyn i ni allu parhau i ofalu am rai o'r mannau a drysorir fwyaf gan gymdeithas, ar ran pawb. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gofalu am leoedd mewn modd sy'n cyfrannu at fudd y cyhoedd. O'r herwydd, rydym yn mynd ati fwyfwy i ymrwymo adnoddau sylweddol a chapasiti staff – mewn eiddo ac ar draws Cymru – er mwyn datblygu budd y cyhoedd trwy raglenni fel Croeso i Bawb.

Croeso i Bawb / Everyone Welcome: Beth ydyw?

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ran i'w chwarae yn y gymdeithas sifil, wleidyddol a chymdeithasol ledled Cymru.

Mae cyfleoedd a gynigir gan yr Iaith Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r amrywiaeth o bartner-sefydliadau â budd yn darparu llwyfan delfrydol i Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru wireddu ei phwrpas o fod ar gyfer pawb, am byth. Mae Croeso i Bawb / Everyone Welcome yn hanfodol i'n hymrwymiad i fod yn sefydliad cynhwysol.



Sut y gallwch chi helpu

Rydym yn chwilio am ddau aelod allanol ar gyfer y bwrdd sy'n cynnal ein hymrwymiad i Croeso i Bawb / Everyone Welcome. Bydd y rôl yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddod â'ch profiad a'ch treiddgarwch eich hun er mwyn cefnogi a herio'r sefydliad i fwrw ymlaen â'r dyheadau canlynol:

- bod Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn cael ei chydabod fel sefydliad amrywiol a chynhwysol, sy'n dysgu ac yn gwella'n barhaus;
- bod Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn gallu sicrhau ei bod yn berthnasol i gymdeithas Cymru a bod y gymdeithas yn gallu uniaethu â hi

Gorwedd y bwrdd yng nghanen llywodraethu Cymru yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ond mae ganddo awdurdod dirprwyedig i lunio, cynllunio a chyflawni'r gwaith.

Y disgwyl yw y byddwch yn dod â gwybodaeth a phrofiad o gynorthwyo a gweithio gyda chymunedau amrywiol yng Nghymru, ynghyd â'r gallu i fod yn gynghorydd dibynadwy – gan gynnig cymorth a her i'r bwrdd a'r gwaith a wnawn ar draws Cymru. Byddai profiad o ddatblygu pobl ac ymgysylltu â hwy yn ystod proses newid yn fuddiol hefyd.

Rydym angen newid y ffordd y gweithiwn er mwyn i ni allu gwireddu ein dyheadau, a rhaid i ni ddod â'n staff a'n gwirfoddolwyr gyda ni.

Nid yw'n ofynnol i chi fod â chefnidir yn y sector treftadaeth/diwylliannol – sylweddolwn y gall pâr newydd sbon o lygaid esgor ar fanteision lu. Fodd bynnag, byddwch yn debygol o fod wedi mynd i'r afael a rôl debyg yn y gorffennol ar fwrdd, pwyllgor neu banel ymgynghori.

Byddwch yn mwynhau gwrando ar drafodaethau Bwrdd y Prosiect, a chyfrannu atynt, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu hystyried a'u llywio'n briodol. Byddwch yn gallu herio ein ffordd o feddwl mewn modd cadarnhaol, ond byddwch yn deall yr angen i gynnal y momentwm trwy'r prosiect.

Effaith

Fel sefydliad gwyddom fod yn rhaid i ni esblygu, ac rydym wedi ymrwymo i ddod yn gynhwysol. Gwir werth y rôl hon a'r bwrdd yn gyffredinol fydd gosod cyflymder y newid a'n helpu i weithio'n well a/neu'n wahanol er mwyn hwyluso a chynnal y newid hwnnw.



Y rôl

Rôl wirfoddol, ddi-dâl yw hon, ond gallwn dalu treuliau.

Hoffem i chi wneud y canlynol:

- Mynychu cyfarfodydd Bwrdd y Prosiect bob yn ail fis, naill ai yn y cnawd, dros y ffôn neu trwy gyfleusterau fideo-gynadledda. Bydd y cyfarfodydd yn para oddeutu 2 awr ar gyfartaledd, ac fel arfer cânt eu cynnal yn ystod oriau gwaith arferol (9am-5pm).
- Bod yn barod i gael rhywfaint o amser cyswllt gyda ni y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd er mwyn trafod / camu ymlaen â materion penodol yn ymwneud â Croeso i Bawb / Everyone Welcome, pe bai materion o'r fath yn codi.
- Bod yn heriol ac yn gefnogol wrth ein helpu i gynllunio a chyflawni'r prosiect.
- Bod yn fodlon rhannu eich gwybodaeth, a phan fo hynny'n briodol ein cyfeirio at sefydliadau neu unigolion eraill a all ein helpu i gefnogi ein gwaith.

Fodd bynnag, rydym yn fodlon bod yn hyblyg o safbwynt eich cysylltiad â ni pe bai'n anodd i chi ymrwymo i gyfarfodydd rheolaidd.

Ein hymrwymiad ni i chi

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Eich helpu i ddeall yn llwyr yr eiddo a'r prosiect er mwyn i chi allu mynd i'r afael â'r rôl, yn cynnwys cyfarfod Bwrdd y Prosiect a'r tîm ehangach
- Sicrhau bod cyfarfodydd Bwrdd y Prosiect yn cael eu trefnu a'u rheoli'n dda, er mwyn i'ch cyfraniad esgor ar y gwerth mwyaf
- Mynd ati'n rheolaidd i adolygu eich rôl ar y Bwrdd gyda chi, er mwyn sicrhau bod eich cyfraniad yn cael ei gydnabod a bod eich amser yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol
- Darparu unrhyw gymorth parhaus y gallech fod ei angen wrth fynd i'r afael â'ch rôl

Awyddus i wybod mwy?

Os oes gennych ddiddordeb yn y rôl, anfonwch e-bost at Karen.Carciero@nationaltrust.org.uk gyda chyflwyniad byr, gan nodi pam y mae gennych ddiddordeb.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Jo.McGreal@nationaltrust.org.uk.

Dyddiad cau ar gyfer ymgeisio: **28 Chwefror 2020**

